**EITEM RHAGLEN: 13**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**18 Hydref 2010**

## RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION DARBODUS

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

### Pwrpas yr Adroddiad

**1.** Mae'n ofynnol yn ôl Cod Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf bod Dangosyddion Darbodus yn cael eu monitro'n rheolaidd a bod unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Tân. Yn yr un modd, dan God Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys mae angen rhoi gwybod i'r Awdurdod Tân am unrhyw fenthyciadau tymor hir a newidiadau i gyd-bartïon yr Awdurdod.

### Cyflwyniad

**2.** Cymeradwywyd Dangosyddion Darbodus a Strategaeth Rheoli Trysorlys 2010-2011 gan yr Awdurdod Tân ym mis Mawrth 2010. Ers eu cymeradwyo mae'r Dangosyddion Darbodus a amcangyfrifwyd ar gyfer 2010-2011 ymlaen wedi newid. Hefyd cafwyd benthyciad newydd oddi wrth y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus a rhai newidiadau i'r rhestr o gyd-bartïon.

## Dangosyddion Darbodus 2010-2011

**3.** Mae'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2010-2011 wedi newid oherwydd bod gwir wariant y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2009-2010 yn llai na'r canlyniad a ragamcanwyd. Mae esboniad ar gyfer pob Dangosydd Perfformiad (DP) isod .

Mae'r Nawdd Cyfalaf Gofynnol yn fesur o ddyled tymor hir sydd ei hangen i gefnogi rhaglen gyfalaf yr Awdurdod; mae'r Ffin Weithredol yn fesur o'r uchafswm posibl o ran dyled allanol gan ganiatáu amrywiadau yn y llif arian; ac mae'r Terfyn Awdurdodedig yn amcangyfrif o'r uchafswm y gallai'r Awdurdod fenthyca yn seiliedig ar asesu gofynion gweithredol a risgiau allanol. Mae'r tri phrif ddangosydd wedi newid ar gyfer 2010 - 2011.

Mae cynnydd mewn gwariant cyfalaf o'i gymharu â'r amcangyfrif gwreiddiol oherwydd na chwblhawyd cynlluniau'n llawn yn 2009-2010 gan barhau yn 2010-2011.

Yn Atodiad A rhestrir y dangosyddion a adroddwyd ym mis Mawrth a'r dangosyddion diwygiedig.

## Benthyciadau Newydd

**4.** Benthycwyd £4.5m o'r newydd i ddisodli benthyciad PWLB o £4m oedd yn aeddfedu ac i ariannu gwariant cyfalaf. Benthyciwyd oddi wrth Bwrdeistref Ealing, Llundain ac roedd y raddfa benthyg yn is na graddfeydd PWLB am fenthyciad tebyg. Dyma fanylion y benthyciad:

| Prif swm £ | Cyfradd % | Dyddiad y Benthyciad | Cyfnod | Benthyciwr |
|---|---|---|---|---|
| 4,500,000 | 0.70 | 28/07/2010 | 1 flwyddyn | Ealing |

**Cyd-bartïon a Benthyciadau**

**5.** Pennodd y strategaeth fuddsoddi ar gyfer 2010/11 a gymeradwywyd gan yr Aelodau ym mis Mawrth yn cynnwys cymeradwyo'r meini prawf canlynol ar gyfer cyd-bartïon.

(1) Swyddfa Rheoli Dyled y Trysorlys – terfyn £5m

(2) Awdurdodau Lleol (heblaw cyfraddau wedi'u capio) – terfyn £2m

(3) Yr holl fanciau yn y DU ac Iwerddon a'u his-gwmnïau sydd â chyfraddau da (Fitch neu gyfateb). Ar hyn o bryd, caiff hwn ei ddiffinio fel:

| | |
|---|---|
| Tymor byr | F1 |
| Tymor hir | A |
| Cryfder Unigol/ Ariannol | B |
| Cefnogaeth | 3 |

Terfyn - £5m

Bydd banciau â'u cyfraddau sy'n syrthio islaw'r rheiny yn y tabl uchod yn cael eu defnyddio os oes gwarant llywodraeth ar adneuon cyfanwerthu, ac os yw'r adneuon yn syrthio o fewn telerau'r warant.

(4) Mae gan Gymdeithasau Adeiladu gyda chyfradd (fel y sector bancio) derfyn benthyca o £2m.

(5) Cymdeithasau adeiladu heb eu graddio ond gydag asedau o £1 biliwn neu ragor neu sydd yn cyfyngu benthyciadau i £2m ac uchafswm terfyn amser o 9 mis.

**6.** Mae rhestr o'r cyd-bartïon yn Atodiad B a nodwyd unrhyw newid i'r rhestr ers yr adroddiad diwethaf i'r aelodau.

**7.** Y brif egwyddor ynglŷn â meini prawf buddsoddi'r Awdurdod ydi diogelwch ei fuddsoddiadau. Mae ansicrwydd ynglŷn â theilyngdod credyd cyd-bartïon yn awgrymu y byddai buddsoddiadau byrrach yn ddiogelach ac felly, dyma'r strategaeth rydym yn ei ddilyn. Dyma restr o'r buddsoddiadau ar 30 Medi.

| Prifswm £ | Graddfa % | Dyddiad y Benthyciad | Cyfnod | Benthyciwr |
|---|---|---|---|---|
| 2,430,000 | 0.75 | Amherthnasol | Galw | Bank of Scotland |
| 1,000,000 | 0.90 | 15/07/10 | 4 mis | Norwich & Peterborough |
| 1,000,000 | 0.90 | 15/09/10 | 3 mis | Norwich & Peterborough |
| 1,000,000 | 1.03 | 24/09/10 | 3 mis | Santander UK |

## Argymhellion

**8.** Argymhellir:

(i) Bod y Dangosyddion Darbodus diwygiedig yn cael eu cymeradwyo fel yn Atodiad A.

(ii) Bod yr Aelodau yn nodi'r Cyd-bartïon a restrwyd yn Atodiad B.

(iii) Bod yr Aelodau'n nodi'r benthyciad newydd.

***ATODIAD A***

**DANGOSYDDION DARBODUS**

| | | **2010/11**<br>**£** | **2011/12**<br>**£** | **2012/13**<br>**£** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Gwariant Cyfalaf<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Newydd | <br>7,621,000<br>9,281,022 | <br>5,193,000<br>7,155,000 | <br>4,000,000<br>4,000,000 |
| 2 | Nawdd Cyfalaf Gofynnol<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Newydd | <br>23,252,000<br>23,001,917 | <br>26,544,000<br>28,154,051 | <br>28,416,000<br>29,794,465 |
| 3 | Terfyn Awdurdod<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Newydd | <br>25,252,000<br>25,001,917 | <br>28,544,000<br>30,154,051 | <br>30,416,000<br>31,794,465 |
| 4 | Ffin Weithredol<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Newydd | <br>23,252,000<br>23,001,917 | <br>26,544,000<br>28,154,051 | <br>28,416,000<br>29,794,465 |
| 5 | Cymhareb Costau Ariannol i Lif Ariannol Refeniw Net<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Newydd | <br><br>6.48%<br>4.37% | <br><br>7.91%<br>6.43% | <br><br>8.97%<br>7.81% |
| 6 | Effaith Gynyddrannol Penderfyniadau Buddsoddi Cyfalaf ar Gyfraniadau gan yr Awdurdodau cysylltiedig<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Newydd | <br><br><br><br>72,000<br>185,620 | <br><br><br><br>314,000<br>1,233,071 | <br><br><br><br>723,000<br>1,915,572 |

***ATODIAD B***

**BUDDSODDIADAU CYD-BARTÏON**

**Cyfyngiad y Banciau o £5m - Terfyn**
Barclays, HSBC, Lloyds TSB, Royal Bank of Scotland, Santander, Bank of Scotland, Clydesdale, Ulster Bank a Citibank.
**Dilëwyd –** Alliance & Leicester (wedi' gyfundoddi â Santander), Bank of Ireland, Allied Irish Bank

**Cyfyngiad Llywodraeth Ganol o £5m – Terfyn**
Swyddfa Rheoli Dyled

**Cyfyngiad Awdurdodau Lleol o £2m – Terfyn**
Pob un heblaw am y rhai sy'n agored i derfyn treth y cyngor a phraeseptau dan Adran 1 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. h.y. Wedi'i gadw'r un fath yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

**Cymdeithasau Adeiladu (cyfradd) Terfyn £2m**

Coventry a'r Nationwide

**Cymdeithasau Adeiladu (Asedau £1bn) -£2m /9mis Terfyn**
Cumberland, Kent Reliance, Leeds, National Counties, Newcastle, Norwich & Peterborough, Nottingham, Principality, Progressive, Skipton, West Bromwich a'r Yorkshire.
**Dilëwyd -** Chelsea (wedi'i gyfundoddi ag Yorkshire), Stroud & Swindon (wedi'i gyfundoddi â Coventry)